# VERNESTA CYRIL OBE

# GOFAL IECHYD

PIONEER OF WALES

## ETIFEDDIAETH

Ganed Vernesta yn Castries, Saint Lucia, ac mae diwylliant y Caribî yn parhau i'w siapio Heddiw - y bwyd, yr hiwmor, y ffasiwn a'r iaith y tyfodd i fyny gydag o.

Mae hi dal yn coginio reis a phys, gan gymysgu traddodiadau'r ynys gyda swper dydd Sul a physgod a sglodion.

## CYMRU YW...

DERBYNIAD CYFRANNU'N ÔL GWIRFODDOLI

Dywed Vernesta fod Cymru wedi teimlo fel cartref unwaith yr oedd ganddi deulu, proffesiwn ac wedi sefydlu ffrindiau yma.

Fel menyw Ddu bu'n brwydro'n galed i lwyddo, ond gwnaeth y profiadau hynny ei chryfhau.

Addasodd i'r tywydd a'r diwylliant, gan dderbyn Cymru fel cartref tra bod yr ynysoedd yn parhau'n ail gartref iddi.



## CYFRANIAD

Gwasanaethodd Vernesta Gymru gyda balchder fel bydwraig, gan eni mwy na 2,000 o fabanod a gofalu am deuluoedd yn eu hamseroedd mwyaf bregus.

Yn gynnar yn ei gyrfa wynebodd hiliaeth -unwaith fe ddywedwyd wrthi, "paid â rhoi dy ddwylo du arna i" - ac eto enillodd ymddiriedaeth nifer fawr o deuluoedd ac fe'i henwyd yn Fydwraig Fwyaf Addawol.

Yn ddiweddarach, cynrychiolodd Swyddfa Cymru yn yr Adran Iechyd a derbyniodd wobrau Bydwraig y Flwyddyn a Pride of Britain.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Person sy'n caru pobl - chwerthin, dawnsio, cymuned - ac un o uchafbwyntiau ei bywyd oedd cwrdd â Nelson Mandela.

"GWYBOD DY WERTH: DOEDDWN I DDIM BOB AMSER YN CREDU FY MOD I'N DEILWNG, HYD YN OED PAN OEDD ERAILL YN CREDU YNOF I."